# TELERAU AC AMODAU DEFNYDD

## Cyflwyniad

Mae'r telerau ac amodau yn weithredol rhyngddoch chi, Defnyddiwr y Wefan (yn cynnwys unrhyw is-barthau, heblaw eu bod wedi eu heithrio gan eu telerau a'u hamodau eu hunain) ac ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS, perchennog a gweithredwr y Wefan. Darllenwch y telerau ac amodau yn ofalus am eu bod yn effeithio ar eich hawliau cyfreithiol. Mae eich cytundeb i gydymffurfio â, ac i fod yn rhwym wrth, y telerau ac amodau yma yn cael ei ystyried i ddigwydd ar eich defnydd cyntaf o'r Wefan. Os nad ydych yn cytuno i fod yn rhwym wrth y telerau ac amodau, dylech roi'r gorau i ddefnyddio'r Wefan yn syth.

Yn y telerau ac amodau yma, mae Defnyddiwr neu Ddefnyddwyr yn golygu unrhyw barti allanol sy'n cael mynediad i'r Wefan ac sydd ddim yn (i) gyflogedig gan ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS ac yn gweithredu o fewn rôl eu cyflogaeth nac yn (ii) gweithredu fel ymgynghorydd nac yn darparu unrhyw wasanaeth arall i ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS ac yn cael mynediad i'r Wefan mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth o wasanaethau o'r fath.

Mae'n ofynnol i chi fod dros 18 oed i ddefnyddio'r Wefan hon. Drwy ddefnyddio'r Wefan a chytuno i'r telerau ac amodau, rydych yn ymddangos eich bod, ac yn gwarantu eich bod yn o leiaf 18 oed.

## Cyfraith Eiddo Deallusol ('Intellectual Property') a defnydd derbyniol

1 Mae'r holl gynnwys ar y Wefan, heblaw ei fod wedi ei uwchlwytho gan Ddefnyddwyr, yn eiddo i ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS, ein cysylltiadau neu bartion allanol perthnasol. Yn y telerau ac amodau yma, mae Cynnwys yn golygu unrhyw ysgrifen, graffeg, lluniau, sain, fideo, crynoadau data, gosodiad tudalen, côd a meddalwedd sylfaenol, ac unrhyw ffurf arall o wybodaeth sy'n medru cael ei storio ar gyfrifiadur sy'n ymddangos ar, neu sy'n rhan o'r Wefan, yn cynnwys unrhyw gynnwys o'r un math a uwchlwythir gan Ddefnyddwyr. Wrth barhau i ddefnyddio'r Wefan rydych yn cydnabod fod unrhyw Gynnwys wedi'i warchod gan hawlfraint, nôd masnach, hawliau cronfa ddata ac unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill. Nid oes dim ar y Wefan a gaiff ei gymryd i roi unrhyw hawl na thrwydded, trwy oblygiad, estopel na fel arall, i ddefnyddio unrhyw hawlfraint, logo neu farc gwasanaeth a arddangosir ar y Wefan heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol y perchennog.

2 Gallwch, er eich defnydd personol, anfasnachol eich hun, wneud y canlynol:
   a) Adfer, arddangos a gweld y Cynnwys ar sgrîn cyfrifadur

3 Fel arall, ni ddylech ail-gynhyrchu, newid, copïo, rhannu na defnyddio ar gyfer pwrpas masnachol unrhyw Gynnwys heb ganiatâd ysgrifenedig ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS.

## Defnydd Gwaharddiedig

4 Ni allwch ddefnyddio'r Wefan ar gyfer unrhyw un o'r pwrpasau canlynol:

a) Defnydd mewn unrhyw ffordd sy'n achosi, neu allai achosi, niwed i'r Wefan neu a fyddai'n amharu ar ddefnydd unrhyw berson arall o'r Wefan;
b) Defnydd mewn unrhyw ffordd sy'n niwediol, anghyfreithiol, sarhaus, sy'n achosi aflonyddu, yn fygythiol neu'n annymunol mewn unrhyw ffordd neu sydd yn torri unrhyw gyfraith, rheoliad neu orchymyn llywodraethol berthnasol;
c) Gwneud, trawsyrru neu storio copîau electroneg o unrhyw Gynnwys sydd wedi'i warchod gan hawlfraint heb ganiatad y perchennog.

**Dolenni i wefannau eraill**

5 Gall y Wefan hon gynnwys dolenni i wefannau eraill. Oni nodir yn wahanol, nid yw'r gwefannau yma o dan reolaeth ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS nag ein cysylltiadau.

6 Nid ydym yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys y gwefannau hyn ac yn ymwadu unrhyw a phob ffurf o golled neu niwed yn deillio o ddefnydd ohonynt.

7 Nid yw bodolaeth dolen i wefan arall ar y Wefan yn awgrymu unrhyw ardystiad am y gwefannau eu hunain na'r rheini sydd â rheolaeth ohonynt.

**Polisi Preifatrwydd a Pholisi Cwcis**

8 Mae defnydd o'r Wefan hefyd wedi'i reoli gan ein Polisi Preifatrwydd a'n Polisi Cwcis, sydd wedi'u corffori i mewn i'r telerau ac amodau yma trwy gyfeiriad.

**Argaeledd y Wefan ac Ymwadiadau**

9 Mae unrhyw gyfleusterau, offer, gwasanaethau neu wybodaeth arlein sydd ar gael gan ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS trwy'r Wefan (y Gwasanaeth) yn cael ei ddarparu 'fel ag y mae' ac ar sail 'fel sydd ar gael'. Nid ydym yn gwarantu y bydd y Gwasanaeth yn rhydd o ddiffygion a/neu nam. Hyd eithaf ein gallu o dan y gyfraith, nid ydym yn rhoi unrhyw warant (yn unwaith nag ymhlyg) o addasrwydd ar gyfer unrhyw bwrpas penodol, cywirdeb gwybodaeth, cydweddoldeb, a safon boddhaol. Nid yw ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS o dan unrhyw oblygiad i ddiweddaru gwybodaeth ar y Wefan.

10 Er y bydd ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yn defnyddio ymdrechion rhesymol i sicrhau y bydd y Wefan yn ddiogel ac yn rhydd o wallau, firysau a drwgwedd arall, nid ydym yn rhoi unrhyw warant am hynny a bydd pob Defnyddiwr yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddiogelwch ei hun, yn ogystal â diogelwch eu manylion personol a'r cyfrifiaduron.

11 Nid yw ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw darfiad neu ddiffyg argaeledd y Wefan.

12 Mae ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yn cadw'r hawl i newid, atal neu derfynu unrhyw ran o'r Wefan (neu'r Wefan gyfan) yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau sydd ar gael. Bydd y telerau ac amodau yma yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw fersiwn addasedig o'r Wefan oni nodir yn glir fel arall.

**Cyfyngiad ar atebolrwydd**

13 Nid oes unrhyw beth yn y telerau ac amodau yma yn (a) cyfyngu neu atal eich atebolrwydd chi na'n hatebolrwydd ni am farwolaeth neu niwed personol yn deillio o'n hesgeulustod ni, fel sy'n berthnasol, (b) cyfyngu neu atal eich

atebolrwydd chi na'n hatebolrwydd ni am dwyll na chamliwio twyllodrus, nag (c) yn cyfyngu neu atal eich atebolrwydd chi na'n hatebolrwydd ni mewn unrhyw ffordd na chaniateir o dan y gyfraith berthnasol.

14 Ni fyddwn yn atebol i chi am unrhyw golled yn deillio o unrhyw ddigwyddiad tu hwnt i'n rheolaeth ni.

15 Hyd eithaf ein gallu o dan y gyfraith, nid yw ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yn derbyn unrhyw atebolrwydd am y canlynol:

a) Unrhyw golledion busnes, fel colled elw, incwm, cyllid, arbedion a ragwelir, busnes, cytundebau, ewyllys da neu gyfleoedd masnachol;
b) Colled neu lygredd o unrhyw ddata, cronfa ddata neu feddalwedd;
c) Unrhyw golled neu niwed arbennig, anuniongyrchol neu ganlyniadol.

**Cyffredinol**

16 Ni allwch drosglwyddo unrhyw hawl sydd gennych o dan y telerau ac amodau i unrhyw berson arall. Gallwn drosglwyddo ein hawliau ni o dan y telerau ac amodau lle rydym yn rhesymol yn meddwl na fydd eich hawliau chi yn cael eu heffeithio.

17 Gallwn amrywio'r telerau ac amodau hyn o dro i dro. Bydd y telerau ac amodau diwygiedig yn berthnasol i'r Wefan o'r dyddiad y cânt eu cyhoeddi. Dylai Defnyddwyr wirio'r telerau ac amodau yn gyson i sicrhau cyfarwydd-deb gyda'r fersiwn cyfredol.

18 Mae'r telerau ac amodau yma – ynghyd â'r Polisi Preifatrwydd a'r Polisi Cwcis – yn cynnwys yr holl gytundeb rhwng y partîon yn berthnasol i'w bwnc ac yn disodli pob trafodaeth, trefniant neu gytundebau blaenorol a allai fod wedi cymryd lle mewn cysylltiad â'r telerau ac amodau.

19 Nid yw'r Ddeddf Cytundebau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 yn berthnasol i'r telerau ac amodau yma, ac ni fydd gan unrhyw drydydd parti hawl i orfodi na dibynnu ar unrhyw ddarpariaethau yn y telerau ac amodau hyn.

20 Os bydd unrhyw lys neu awdurdod cymwys yn canfod fod unrhyw ddarpariaethau yn y telerau ac amodau (neu unrhyw ran ohonynt) yn annilys, anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, bydd y ddarpariaeth, i'r graddau sy'n ofynnol, yn cael ei ystyried i fod wedi'i ddileu, ac ni fydd dilysrwydd na gorfodaeth y darpariaethau eraill yn y telerau ac amodau wedi'u heffeithio.

21 Oni gytunir fel arall, ni fydd unrhyw oedi, weithred neu fethiant gan barti i ymarfer unrhyw hawl neu rwymedi yn cael ei gymryd i fod yn hepgoriad o'r hawl neu rwymedi yna, nag unrhyw hawl neu rwymedi arall.

22 Bydd y Gytundeb yma yn cael ei reoli gan a'i ddehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr a bydd pob anghydfod sy'n codi o dan y Gytundeb (yn cynnwys anghydfodau neu hawliadau anghytundebol) yn ddarostyngedig i awdurdodaeth ecsgliwsif llysoedd Cymru a Lloegr.

**Manylion ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS**

23 Mae ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yn gwmni corfforedig yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cofrestru 8181527 a sydd a'i gyfeiriad cofrestredig yn 33 Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7BB a dyma'r cwmni sy'n gweithredu'r Wefan. Rhif TAW cofrestredig y cwmni yw 140 4700 55.

Gallwch gysylltu ag ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS drwy anfon ebost i post@adve.co.uk